OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2014 Rhif 72 (Cy. 7)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A5 a'r A494 (Cyffordd y Ddwyryd, Y Ddwyryd, Sir Ddinbych) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2014

Gwnaed	*13 Ionawr 2014*
Yn dod i rym	*20 Ionawr 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) a Chefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Ionawr 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A5 a'r A494 (Cyffordd y Ddwyryd, Y Ddwyryd, Sir Ddinbych) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2014.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:30 o'r gloch ar 20 Ionawr 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" ("*the lengths of the trunk roads*") yw:

i. y darn o gefnffordd yr A5 yn y Ddwyryd yn Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 250 o fetrau i'r

dwyrain o'i chyffordd â'r A494 hyd at bwynt 150 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno;

ii. y darn o gefnffordd yr A494 yn y Ddwyryd yn Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 200 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r A5 hyd at ganolbwynt y gyffordd honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar y darnau o'r cefnffyrdd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd, na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r cefnffyrdd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

Cymhwyso

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 13 Ionawr 2014

R Morgan

RICHARD MORGAN

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.